

SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD: Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol

LLEOLIAD Y SWYDDFA: Caernarfon – i gynnwys Gogledd Cymru

RHEOLWR LLINELL: Rheolwr Tim Gogledd Cymru

CYFRIFOLDEBAU GORUCHWYLIO: Dim

PRIF DDIBEN Y SWYDD:

Darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n gymwys i dderbyn y gwasanaeth.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn y ffordd ganlynol:

1. Siarad ar ran plant a phobl ifanc a'u galluogi pan fo hynny'n bosibl i siarad drostynt eu hunain. Eu helpu i feithrin dealltwriaeth o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a chymryd rhan yn y penderfyniadau hynny a dylanwadu arnynt. Cyflwyno eu barn, eu dymuniadau a'u hanghenion i wneuthurwyr penderfyniadau a chwilio am ffyrdd o rwystro eu hawliau dynol rhag cael eu tramgwyddo.
2. Cynorthwyo plant a phobl ifanc i ymchwilio opsiynau, deall hawliau a chwyno drwy ddefnyddio gweithdrefnau cwyno anffurfiol a ffurfiol.
3. Cynnal trafodaethau â gweithwyr cymdeithasol, uwch reolwyr, gofalwyr maeth, cyfriethwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran pobl ifanc.
4. Hebrwng plant a phobl ifanc i fforymau gwneud penderfyniadau a sicrhau y caiff eu barn ei chynrychioli.
5. Hwyluso'r gwaith o hyrwyddo eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael y gwasanaeth.
6. Hyrwyddo cyfle cyfartal, ymarfer gwrth-ormesol a gweithio mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu.
7. Cadw cofnodion ysgrifenedig a/neu gofnodion cyfrifiadurol o'r holl waith a wneir.

8. Mewn cydweithrediad â'r arweinydd prosiect a staff eraill, darparu sesiynau hyfforddiant a gwybodaeth i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, gofalwyr ac asiantaethau eraill yn ôl y galw.
9. I helpu gyda gwerthuso y gwasanaeth.
10. I fynychu cyfarfodydd perthnasol o fewn TGP Cymru mewn cytundeb gyda'r Rheolwr Prosiect ac I gyfranogi tuag at ddatblygiad cyffredinol TGP Cymru .

Bydd y swydd yn golygu gweithio'n annibynnol gan ddefnyddio barn ac ystyriaeth broffesiynol, yn aml mewn sefyllfaoedd cymhleth a dyrys ac a allai fod yn ymwneud â materion amddiffyn plant.

AMODAU GWAITH

37 awr.

Er mwyn darparu gwasanaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc ac y gallant ei ddefnyddio, mae peth gwaith y tu allan i oriau swyddfa 9.00 – 5.00 yn anochel. Bydd hyn yn galw am drin yr wythnos waith yn hyblyg a gallai olygu gweithio ar benwythnosau yn achlysurol.

Bydd yr Arweinydd Prosiect yn cynorthwyo deiliad y swydd i gyflawni ei rôl ac yn darparu goruchwyliaeth reolaidd.

Teithio i amrywiol leoliadau. Mae hyn yn gofyn am drwydded yrru lawn a'r defnydd o gludiant

Cymwyseddau craidd (Yn berthnasol i bob aelod o staff) ochr yn ochr â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol penodol	
Cyfathrebu'n Effeithiol:	Mynegi gwybodaeth a syniadau mewn ffordd glir, cryno a chywir; gwrandao ar bobl a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu
Parchu Gwahaniaethau Unigol a Diwylliannol:	Dangos y gallu i weithio'n adeiladol gyda phobl o bob diwylliant, rhyw a chefnidir
Gweithio fel Rhan o Dîm:	Datblygu perthynas waith effeithiol gyda chydweithwyr ac aelodau o'r tîm ar draws y sefydliad cyfan
Hunanreoli:	Rheoli eich ymddygiad eich hun mewn modd sy'n myfyrio ar eich hunan a chwilio am gyfleoedd dysgu parhaus a chyfleoedd twf proffesiynol
Sicrhau Canlyniadau:	Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn dull amserol sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ac yn ymrwymedig i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt
Croesawu Newid:	Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd.

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n benodol i'r rôl hon
<p>Eirioli ar ran Plant a Phobl Ifanc - gweler Atodiad 1</p> <p>Rhaid i eiriolwr annibynnol adlewyrchu dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc y mae'n eirioli ar ei ran, hyd yn oed os oes achos o wrthdaro gyda 'lles gorau'r' plentyn neu'r person ifanc. Mae eiriolwyr annibynnol fwyaf tebygol o weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, ond gallant hefyd gynrychioli plant neu bobl ifanc mewn amgylchiadau eraill.</p> <p>http://nos.ukces.org.uk/NOS%20Directory/NOS%20PDF%20%20Skills%20For%20Care%20And%20Development/NOSProjectDocuments_153/SCDHSC0046.pdf</p> <p>Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant</p> <p>http://wales.gov.uk/caec/publications/childrenandyoungpeople/advocacy/advocacystandar dsen.pdf;jsessionid=59FD8254C31F6F9265A93A113BFDCD17?lang=cy</p>

MANYLEB PERSON

(Yn benodol i'r rôl hon)

*Pan fyddwch yn llenwi eich ffurflen gais, dylech sicrhau eich bod yn cynnwys tystiolaeth o sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf/gofynion hanfodol a restrir. Os byddwch yn bodloni unrhyw feini prawf dymunol, dylech gynnwys tystiolaeth o hyn hefyd. Cyn llenwi'r ffurflen gais, dylech ddarllen y canlynol:- *'Canllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen gais'*

GOFYNION:	HANFODOL / DYMUNOL	SUT Y CAIFF EI FESUR Ffurflen Gais (Ff) Cyfweiliad (C) Dogfennaeth (D) Prawf (P)
<p>CYMWYSEDDAU</p> <p>Yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol bydd angen i ddeiliad y swydd ddangos tystiolaeth o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn eu Datganiadau Cymhwysedd ar y meysydd canlynol:</p> <p>Perfformiad – gweler Atodiad 1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith gyda Phlant a phobl ifanc er mwyn darganfod sut y maent am gael eu cynrychioli a chan bwy • Gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc i gynrychioli eu dewisiadau a'u hanghenion • Helpu Plant a phobl ifanc i ddeall canlyniadau'r gynrychiolaeth • Cynorthwyo plant a phobl ifanc i werthuso eu profiadau o'r gwasanaeth eiriolaeth a'r systemau y maent wedi dod ar eu traws <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth – gweler Atodiad 1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hawliau • Cyfathrebu • Diogelu 	<p>H</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p>	<p>Ff - C</p>
<p>CYMWYSTERAU</p> <p>Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel lechyd ac Addysg.</p>	<p>D</p>	<p>Ff - D</p>
<p>PROFIAD</p> <p>Eiriolaeth neu ddealltwriaeth clir o'r rol</p>	<p>H</p>	<p>Ff</p>
<p>ARALL</p> <p>Y gallu i siarad Cymraeg</p> <p>Trwydded yrru lawn a'r defnydd o gar</p>	<p>D</p> <p>H</p>	<p>Ff – C</p> <p>Ff - C</p>

ATODIAD 1

Cyfateb Cymwyseddau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Gweithiwr Eiriolaeth

Pan fyddwch yn llenwi eich Ffurflen Gais dylech ddangos tystiolaeth o gymaint o elfennau â phosibl o'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd yn y golofn dde.

Perfformiad	Rydym yn edrych am enghreifftiau o
<p>Gwaith gyda Phlant a phobl ifanc er mwyn darganfod sut y maent am gael eu cynrychioli a chan bwyt</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sut rydych wedi ymgysylltu â phlentyn neu berson ifanc mewn ffyrdd sy'n ennyn eu hymddiriedaeth a'u cyfranogiad, gan ystyried lefel eu datblygiad • Sut rydych wedi cefnogi plentyn neu berson ifanc i ddeall y prosesau y maent yn rhan ohonynt. • Sut rydych wedi cefnogi plentyn neu berson ifanc i gyfleu eu teimladau, eu dewisiadau a'u hanghenion o ran eiriolaeth a chynrychiolaeth annibynnol. • Sut rydych wedi cefnogi plentyn neu berson ifanc i ddeall y dewisiadau sydd ganddynt o ran y penderfyniadau a wneir amdanynt ac unrhyw gyfyngiadau sydd arnyn nhw ac eraill.
<p>Gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc i gynrychioli eu dewisiadau a'u hanghenion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sut rydych wedi darparu gwybodaeth mewn ffordd hygyrch sy'n hawdd ei deall ac mewn iaith sy'n rhoi'r pŵer priodol a llais effeithiol i'r plentyn neu'r person ifanc • Sut rydych wedi cefnogi plentyn neu berson ifanc i gyfleu'r hyn maent eisiau i chi ei ddweud ar eu rhan gan ymchwilio i opsiynau a chanlyniadau posibl unrhyw gamau • Sut rydych wedi cefnogi plentyn neu berson ifanc i ddeall beth y gall pobl eraill sy'n herio eu cynrychiolaeth ei ddweud a sut y gall fod angen i chi newid yr hyn a ddywedwch mewn ymateb i'r sylwadau • Sut rydych wedi cytuno ar unrhyw gamau dilynol gyda'r plentyn neu'r person ifanc ar ddiwedd pob cyswllt.
<p>Helpu Plant a phobl ifanc i ddeall canlyniadau'r gynrychiolaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sut rydych wedi cefnogi plentyn neu berson ifanc i ddeall canlyniadau'r gynrychiolaeth. • Sut rydych wedi galluogi plentyn neu berson ifanc i ddeall unrhyw gamau y gellir eu cymryd yn y dyfodol, sut y gallant fod yn rhan o hynny ac unrhyw effeithiau y mae hynny'n debygol o'i chael ar eu bywydau
<p>Cynorthwyo plant a phobl ifanc i werthuso eu profiadau o'r gwasanaeth eiriolaeth a'r systemau y maent wedi dod ar eu traws</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sut rydych wedi cynorthwyo plentyn neu berson ifanc i werthuso eu profiadau o'r gwasanaeth eiriolaeth a'r systemau sy'n ei ategu • Sut rydych wedi cefnogi plentyn neu berson ifanc i godi pryderon a dilyn y gweithdrefnau cwyno pan na fyddant yn fodlon ar y gwasanaeth

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Rydym yn edrych am enghreifftiau o -
Hawliau	<ul style="list-style-type: none"> • Beth rydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am y gofynion cyfreithiol a'r gofynion yn y gweithle yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a hawliau • Beth rydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am eich rôl o ran hyrwyddo hawliau, dewisiadau, lles a chyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc
Cyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> • Beth rydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am ddulliau i hyrwyddo cyfathrebu effeithiol a galluogi i blant a phobl ifanc gyfleu eu hanghenion, eu barn a'u dewisiadau.
Diogelu	<ul style="list-style-type: none"> • Beth rydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc. • Beth rydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am sut a phryd i adrodd am unrhyw bryderon am gamdriniaeth, arferion gwael neu wahaniaethol, adnoddau neu anawsterau gweithredol